# Y Bartneriaeth Awyr Agored
# CYLCHLYTHYR

## Ffocws ar Glwb - Clwb Hwylio Afon Tamar

Mae'r clwb hwylio hwn yn glwb gweithgar a brwdfrydig ar lan ddwyreiniol yr afon Tamar, i'r de o Bont Tamar yn Plymouth.

Gyda thua 270 o aelodau a sawl adain gweithgar; o gychod hwylio a dingis i grwpiau cadets a rasus cychod hwylio bob wythnos dros fisoedd yr haf, mae hwn yn glwb prysur yn wir! Felly pan ddaethon nhw ar draws chwe unigolyn oedd yn awyddus i gymryd rhan a gwirfoddoli gyda'r clwb, cawsant groeso cynnes iawn!

Trwy gyd-weithio'n agos gyda Stuart Jones, y swyddog datblygu newydd i ardal Plymouth, bu i'r clwb lunio rhaglen i gefnogi hyfforddiant a datblygiad y gwirfoddolwyr newydd hyn, a oedd â phrofiad cyfyngedig o hwylio yn unig. Ar y cyd â Stuart, sydd yn brofiadol iawn yn helpu clybiau hwylio, daethant o hyd i ffynhonnell arian i hyfforddi'r gwirfoddolwyr yn ddigonol, a chreu rhaglen hyfforddi dros yr hydref ar eu cyfer. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddi pob un o'r chwe gwirfoddolwr drwy'r cyrsiau cymorth cyntaf, diogelu a llês, trin cychod pŵer a chymhwyster hyfforddwyr dingi angenrheidiol. Y nôd oedd eu bod nhw'n barod amdani erbyn y gwanwyn i allu bod ar y dŵr gyda'r clwb drwy gydol yr haf.

Gyda rhaglen Plant a Ieuenctid hynod boblogaidd yn y clwb, bydd y gwirfoddolwyr newydd hyn yn amhrisiadwy yn gweithio ar y rhaglen yma. Mae hefyd yn wych gweld bod dau o'r gwirfoddolwyr newydd yn bobl ifanc eu hunain (16-18 oed), sy'n golygu bod gan y bobl ifanc yn y clwb fodelau rôl gwych, ac efallai y bydd rhai yn dilyn esiampl y gwirfoddolwyr yn y dyfodol ac yn gwirfoddoli eu hunain, gan gryfhau dyfodol y clwb ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

## Rhanbarth Bae Abertawe

Bu'r Bartneriaeth Awyr Agored Rhanbarth Bae Abertawe yn rhan o'r Ŵyl Antur 3 diwrnod yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Mynychwyd y digwyddiad gan Sioned Thomas a Bethan Logan ar y dydd Gwener i osod eu stondin. Cawsant y cyfle wedyn i wylio'r ffilm gwych 'Adra' gan y Cold House Collective am y sîn ddringo yn Llanberis. Bu sgwrs wedyn gan Danielle Sellwood o Find it Film ynghylch cynhwysiant yn y byd cynhyrchu ffilmiau. Ar ôl cinio roedd sgwrs gan Tori James, y fenyw Gymreig gyntaf i ddringo Everest!

Dywedodd Sioned, "Roedd yn wych i glywed yr holl siaradwyr ac i wrando arnynt yn siarad mewn trafodaeth grŵp fel panel. Ar y dydd Sadwrn cefais y cyfle i siarad am sut es i i mewn i'r diwydiant awyr agored, ac am fy ngwaith gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored. Dangosaid hefyd ddau ffilm byr oedd wedi eu creu gan fyfyrwyr y cwrs creu ffilmiau ym Mhrifysgol Cymru Coleg y Drindod Dewi Sant amdan ein gwaith. Diolch enfawr i'r Egin am gynnal digwyddiad mor wych! Edrychwn ymlaen i'r flwyddyn nesaf!"




# Newyddion o'r Ardaloedd

## Gwynedd

Dechreuwn y newyddlen hon gyda rhanbarth Gwynedd, ac ysgol Dyffryn Nantlle ar y brig. Yn ystod wythnos Mawrth 18-25 eleni cynhaliwyd Cystadleuaeth Canwio Ysgolion Gwynedd am yr ail flwyddyn yn olynol. Gydag arbenigedd Jonathan Davies o Canwio Cymru, a chefnogaeth ariannol gan Nuclear Restoration Services bu timau o flynyddoedd 9 a 10 yn cystadlu am y teitl Pencampwyr 2024.

Buom yn ffodus efo'r tywydd gydag ambell ddiwrnod cynnes a braf yn helpu'r cystadleuwyr i berfformio i safon uchel iawn. Roedd pob diwrnod yn dechrau gyda briff ynglŷn a threfn y diwrnod, yna ymarfer padlo a chynhesu fyny ar y lan. Wedyn roedd pawb yn mynd ar y dŵr ac yn cael amser i arfer gyda'r cwch cyn dechrau amseru.

Roedd y cystadleuwyr yn cael dau gyfle i rasio dros bellter o 100m a roedd yr amseroedd i gyd yn cael eu hadio yna rhannu rhwng y nifer yn y tîm. Ar ddiwedd y cystadlu roedd amser i gynnal rasus gwirion ag i brofi cychod perfformiad fel surfski.

Daeth yn amlwg yn fuan y byddai yn agos iawn rhwng y dair ysgol orau a roedd yr amseroedd yn cadarnhau hynny gydag eiliadau yn gwahanu 1af a 3ydd. Ysgol Dyffryn Nantlle ddaeth i'r brig eleni, yn cipio y teitl gan Ysgol Friars oedd yn 3ydd ag Ysgol Ardudwy yn gorffen yn ail. Gobeithio y bydd nifer o'r cystadleuwyr yn penderfynu ymuno â Chlwb Padlo Dŵr Llyfn Gogledd Cymru ar ôl iddynt gael blasu y gamp.

Diolch i Jonathan a'r gwirfoddolwyr o glwb Slalom Gogledd Cymru a Clwb Canwio Conwy am helpu drwy'r wythnos.

Mewn newyddion arall, mae'r rhaglen Llwybr Llesiant Gwynedd yn parhau gyda dau gwrs Cymorth Cyntaf ym mis Mawrth. Dim ond yr Asesiadau Arweinydd Iseldir fydd gan y gwirfoddolwyr ar ôl cyn iddynt gymhwyso ac wedyn fe fyddant yn barod i arwain eu teithiau cerdded eu hunain.

Bu tri diwrnod o weithgareddau i blant ym Mhlas Menai, gyda chyllid gan Wasanaethau Pobl Ifanc Gwynedd. Roedd y tri diwrnod yn llawn gyda dros 50 o gyfranogwyr yn eu mwynhau.

Yn olaf, mae cyllid All Afloat wedi ei sicrhau ar gyfer Clwb Hwylio Dyfi i ddarparu cyfres arall o sesiynau dysgu sut i hwylio ar gyfer plant lleol. Bydd y gwaith cynllunio yn dechrau ym mis Ebrill rhwng y Clwb ei hun a Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored Gwynedd.





# Y Bartneriaeth Awyr Agored
# CYLCHLYTHYR

## Coventry

Roedd Coventry yn llwyddiannus gyda'u cais am gyllid drwy un o'u rhanddeiliaid, Think Active, i'w galluogi i gynnal rhaglen Antur y Ferch Hon mewn cydweithrediad â'r School Games Organisers a'r Warwick University Climbing Hub. Mae'r cohort cyntaf yn edrych i gychwyn ym mis Medi, gyda phob un yn rhedeg am 8 wythnos ac yn rhoi'r cyfle i 16 o fenywod, oed 16-18, o ardaloedd difreintiedig yn y ddinas, i gymryd rhan mewn dringo, gweithgaredd nad ydynt yn cael eu cynrychioli ynddi'n aml, sydd â nifer o rwystrau sylweddol.

Maent yn gobeithio creu cymuned newydd o ddringwyr benywaidd newydd yn y ddinas, yn ogystal â chysylltu'r cyfranogwyr i'r gymuned ddringo ehangach, gyda'r nod yn y pen draw i gael rhai o'r bobl ifanc i hyfforddi a chymhwyso fel hyfforddwyr dringo fydd yn arwain i etifeddiaeth barhaol yn Coventry.

Roedd Coventry hefyd yn llwyddiannus yn ddiweddar gyda chais am gyllid gyda Voluntary Action Coventry – fel rhan o'r cais hwn, roeddent yn y Potters Green Community Fair, yn cynrychioli'r Bartneriaeth Awyr Agored gan gynnal gweithgareddau ymgysylltu i gynyddu ymwybyddiaeth ym Mhartneriaeth Awyr Agored Coventry. Roedd yr her "Dyfalwch Bwysau'r Sach Teithio" yn boblogaidd iawn, gydag ystod eang o atebion! Gwnaethant lawer o gysylltiadau newydd gyda sefydliadau a gwirfoddolwyr yn y ddinas. Maent yn cymryd rhan mewn ail ddiwrnod ymwybyddiaeth cymunedol fydd yn digwydd ar Fai 8fed yn nghanolfan gymunedol y Jubilee Crescent Community Centre ac yn edrych ymlaen i weld cymaint â phosibl o pobl yn mynychu.




## Rhanbarth Gwent

Bu'n ddechrau prysur i 2024 yng Ngwent, gydag amrywiaeth o brosiectau'n cael eu trefnu i gynyddu mynediad i weithgareddau awyr agored i bawb. Yn ystod gwyliau'r Pasg, cefnogodd ein rhaglen antur i ofalwyr ifanc dros 60 o bobl ifanc Gwent i brofi dringo, padlo ac ogofa. Ni fu'r tywydd gwael yn rwystr iddynt rhag mynd allan a, diolch i'r tîm yn Caerphilly Adventures, cawsant y cyfle i archwilio llefydd anhygoel ar y ffordd.

Mewn partneriaeth gyda Crosfield Outdoors, paratowyd noson llywio nos i ferched gennym ar y Blorenge i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Roedd yn noson wych o droedio drwy'r rhedyn i ddod o hyd i nodweddion micro ar y map, tra'n codi dros £200 i dîm achub mynydd y Longtown Mountain Rescue Team.



Bydd ein rhaglenni Therapi Antur gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, Adferiad a Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent yn cychwyn ym mis Mai, felly mae llawer mwy o gyfleoedd cyffrous i ddod.

# Newyddion o'r Ardaloedd

## Rhanbarth Swydd Aeron

Cafwyd diwrnod ardderchog ar yr Afon Ayr ar ddydd Sul, 17fed o Fawrth, gydag agoriad swyddogol y stepiau mynediad newydd i'r Afon Ayr a seremoni enwi sgiff St Ayles gyda Dame Katherine Grainger . Mae'r cwch wedi bod yn brosiect tair mlynedd a ddechreuodd yn 2021 gyda gwirfoddolwyr lleol a disgyblion o'r Ayr Academy.  Roedd yn brosiect yn ystod y cyfnod Covid i gefnogi iechyd meddwl, ynysiad cymdeithasol a datblygu sgiliau. Fe enwyd y sgiff newydd yn Swydd Aeron yn "Selkirk Grace", a bydd yn ymuno â'r chwe cwch arall sydd wedi eu hadeiladu yn Swydd Aeron dros 12 mlynedd gyda chefnogaeth gan raglen Gwobr Dug Caeredin (DofE) a'r Bartneriaeth Awyr Agored o 2020. Bydd ail sgiff, sy'n agos i gael ei chwblhau, yn cael ei lansio wedi i'r arholiadau ysgol ddod i ben ym mis Mehefin.

Bu cyfnod o bum mlynedd o gynllunio a datblygiad ar gynllun mynediad yr Afon Ayr, o ddyddiau cynnar y sesiynau 'Dewch i Drio' ar yr afon oedd yn cynnig canwio, rhwyfo a sgwlio gyda'r Scottish Rowing Association. Mae'n brosiect gwych ar y cyd gyda nifer o bartneriaid, yn cynnwys Thriving Communities - Community Learning & Development South Ayrshire, Active Schools Scottish Rowing, Kyle Kayak Club a'r University of the West of Scotland

Maent yn edrych ymlaen i fwy o ddatblygiadau rhwyfo a chwaraeon dŵr ar yr Afon Ayr yn y dyfodol. Bydd y sgiff Selkirk Grace wedi ei lleoli yng nghanolfan Dolphin House Outdoor Centre Cyngor De Swydd Aeron i gael bobl ifanc gael mynd ar y dŵr.

Mae Partneriaeth Awyr Agored Swydd Aeron hefyd yn hynod hapus i dderbyn cyllid gan Hillhouse Quarry a Gwobr Dug Caeredin fydd, gydag arian gan Ayrshire Adventure a Phartneriaeth Awyr Agored Swydd Aeron, yn darparu cwrs preswyl 5 diwrnod DofE Aur mewn hwylio antur ar gyfer disgyblion DofE Swydd Aeron. Bydd mordaith mis Mehefin yn cychwyn yn Inverkip yn Swydd Aeron ac yn hwylio am y pum diwrnod nesaf o gwmpas y Mull of Kintyre ac i fyny arfordir dwyreiniol yr Alban i dref hyfryd Oban a adnabyddir fel y "Gateway to the Isles". Bydd y bobl ifanc yn archwilio'r Firth of Forth, yr Inner Hebrides, Isle of Islay, Jura a Mull cyn gadael yn Oban. Bydd y disgyblion yn cael y profiad o hwylio ar y "Taiping" (cwch hwylio traws-Atlantig chwedeg troedfedd) ac yn derbyn cyfarwyddyd mewn mordwyo, hyfforddiant hwyliau, llywio a gwaith tîm. Bydd y cwch yn hwylio mewn ardaloedd o harddwch naturiol ac yn gweld bywyd morol godidog Yr Alban, gyda dolffiniaid trwyn potel, heulforgwn, morfilod a palod.

Dymunai Y Bartneriaeth Awyr Agored Swydd Areon ddiolch hefyd i Ocean Sailing Scotland am ostyngiad hael iawn, ac i'n ariannwyr eraill am alluogi ein myfyrwyr ifanc i brofi'r cyfle gwych yma.





# Y Bartneriaeth Awyr Agored
# CYLCHLYTHYR

## Canol De Cymru

Roedd yn ddiwrnod allan gwych yng Nghynhadledd IOL Cymru yn Atlantic College, Llanilltud Fawr, yng Nghanol De Cymru. Roedd gan y Bartneriaeth Awyr Agored stondin hyfryd, ble roedd ganddynt farsiandïaeth anfarwol i'w rannu ac amser i sgwrsio â nifer fawr o athrawon a gweithwyr proffesiynol awyr agored am bopeth yn ymwneud â'r 'awyr agored'. Roedd yn ddiwrnod llawn gyda chyflwyniad gan Gethin, o Brifysgol Bangor, ar ran y Bartneriaeth Awyr Agored, amdan y Fframwaith Dysgu Antur sydd i ddod. Mynychodd Leila Connolly (Swyddog Datblygu Canol De Cymru) y digwyddiad, gan brofi rhai o'r cyflwyniadau a'r gweithdai diddorol ac addysgiadol oedd ar gael. Roedd Andy Meek, rheolwr Canolfan Awyr Agored Awdurdod Lleol Caerdydd (sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ond bydd wastad yn weithgar!) yn cyflwyno ar ran yr AHOEC – yn darparu profiadau dysgu awyr agored o ansawdd uchel. Cymdeithas o arweinwyr mewn dysgu awyr agored yw'r AHOEC – gyda'r mwyafrif mewn swyddi uwch mewn darpariaeth addysg awyr agored ar draws y DU. Trafodwyd sut maent yn helpu arweinwyr grŵp i ddarparu a chynllunio ymweliadau addysg awyr agored trwy ddarparu ymagwedd bwyllog a phriodol i reolaeth risg, amagwedd a gefnogir gan RoSPA a'r HSE. Roedd un ysgol gynradd o'r Barry, ym Mro Morgannwg, wedi gyrru hanner dwsin o athrawon i fynychu, a phob parch iddynt am roi eu dydd Sadwrn i weithio ar sut i gynyddu ymgysylltiad eu myfyrwyr gydag addysg awyr agored. Mae pennaeth llawn cymhelliant yr ysgol am weld eu myfyrwyr i gyd yn cael yr un cyfleoedd awyr agored ac â thîm gwych sy'n gweithio ar y weledigaeth hon.



Gyda'r ffocws ar ysgolion unwaith eto, mynychodd Leila hefyd ddigwyddiad Dysgu Awyr Agored Awdurdod Lleol Caerdydd yn Forest Farm, Caerdydd, ac, yn ôl Leila, "Treuliwyd y diwrnod yn trafod Dysgu Awyr Agored – damcaniaethau, pam, a'r buddion. Wedi fy ngwahodd gan Cardiff Commitment a'r pennaeth cwricwlwm i gyflwyno, cyflwynais ar Gyfeiriannu. Roedd yn gyferbyniad da gyda'r ffocws ar ysgol goedwig a dysgu awyr agored. Rhoddodd yr ymgysylltiad gyda nifer o athrawon o amrywiaeth o ysgolion fewnwelediad i'r gwahanol faint o ddysgu awyr agored sy'n digwydd yn y gwahanol sefydliadau addysgu yma. Mae gan Canol De Cymru glwb 'South Wales Orienteering Club' (SWOC) gwych a gweithgar. Mae'r clwb yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac yn trefnu gweithgareddau cyfeiriannu fforddiadwy a hygyrch ar draws y rhanbarth. Mae Corff Llywodraethu Cenedlaethol Cyfeiriannu ac, o iard yr ysgol, fel llawer o chwaraeon eraill, gall arwain yr holl ffordd i gystadlaethau cynghrair rhyngwladol. Mae cymwysterau i'w hennill ac mae cymuned wych o gwmpas y gamp. Nid yw'n weithgaredd gostus i sefydlu mewn ysgol a gellir ei hamrywio i greu cysylltiadau traws-gwricwlaidd, felly mae'n hawdd, ac mae'n weithgaredd sy'n hwylog ac ymgysylltiol i bawb ei wneud ar dir ysgol, yn y parc lleol neu ymhellach i ffwrdd. Mae'n amser i helpu'r ysgolion hyn i gyfeiriannu!"

# Newyddion o'r Ardaloedd

## Canolbarth Cymru

Mae'r prosiect Seibiannau Byr, wedi ei ariannu gan Amser, ar gyfer gofalwyr ifanc ar draws Cymru newydd dderbyn blwyddyn arall o gyllid, ac felly mae'n amser gwych i edrych yn ôl ac i ddathlu'r gweithgareddau awyr agored anturus sydd wedi cymryd lle yng Nghanolbarth Cymru hyd yn hyn. Cynigiwyd dros 300 o gyfleoedd awyr agored i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd ar draws Powys a Cheredigion dros yr 8 mis diwethaf. Roedd yn deimlad diymhongar ac ysbrydoledig i glywed straeon y gofalwyr ifanc ac i weld eu gwytnwch a'u brwdfrydedd wrth iddynt gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chymryd seibiant o'u hamserlen ddyddiol. Maent wedi gwneud pob math, o'r padlfyrddio i'r e-feicio, o'r dringo i'r snorcelio, ac mae llawer mwy i ddod!

Dymunai Y Bartneriaeth Awyr Agored Canolbarth Cymru ddiolch hefyd i'w holl ddarparwyr am wneud y gweithgareddau hyn yn brofiadau mor bleserus - Crosfield Outdoors, Llain Activity Centre, Adventure Beyond, ICY Expeditions, Ieuenctid Cambria Youth Cyf./Ltd, Peggy Beer, Leanne Bird, Wellbeing & Adventure, a Dynamic Rock, a'r sefydliadau atgyfeirio Credu a Gofalwyr Ceredigion Carers sydd wedi bod yn hyrwyddo a chefnogi eu gweithgareddau ar gyfer eu gofalwyr ifanc.

Mae sesiynau'r Clwb Dringo Cynhwysol hefyd wedi bod yn mynd ymlaen yn nghanolfan y Llangorse Multi-Activity Centre diolch i gyllid gan Chwaraeon Powys a'r Austrian Alpine Club. Diolchodd Partneriaeth Awyr Agored Canolbarth Cymru hefyd i dîm hyfforddwyr gwych Llangors, gyda diolch arbennig i'r gwirfoddolwyr Dean a Delyth sydd wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y clwb. Roedd yn wych gweld y rhai arferol yn dod ac yn gwella eu sgiliau dringo ac i groesawu wynebau newydd hefyd. Mae rhai llefydd ar ôl ar y sesiynau o rwan tan fis Mehefin, gwiriwch y dudalen ddigwyddiadau ar y wefan ar gyfer dyddiadau ac i archebu.

Os hoffech ddarganfod mwy am y prosiectau a digwyddiadau sydd i ddod, bydd rhaglen antur aml-weithgaredd ar gyfer oedolion gydag anghenion dysgu ychwanegol ym Mhowys yn ystod yr haf, yn ogystal â Diwrnod Hwylio i rai ag Anabledd gan Glwb Hwylio Llangors ar yr 8fed o Fehefin 2024. Bydd y dyddiadau ar gael ar y dudalen digwyddiadau yn fuan. Bydd sesiynau sgiliau byw'n y gwyllt ar gyfer ffoaduriaid a'r teuluoedd sydd wedi eu cartrefu yn digwydd yng Ngheredigion ym mis Awst, yn ogystal â chyfleoedd i ofalwyr ifanc ym Mhowys a Cheredigion, yn cynnwys cymorth cyntaf awyr agored a chyrsiau eraill i ofalwyr ifanc hŷn yng Ngheredigion.



